**Cynllun Tair Blynedd y Cyngor**
**Rhan B - Diweddariad ar y Cynllun Ariannol Tair Blynedd ar gyfer 2010/11**

1. Blwyddyn ariannol 2010/11 yw blwyddyn olaf y cynllun tair blynedd.

2. Yng nghynllun y llynedd fe roddwyd diweddariad o'r tafluniad ariannol gwreiddiol a roddwyd yng nghymal 40 y Cynllun gwreiddiol oedd yn rhagweld y byddai modd i'r Cyngor osod cyllideb o £217.54m yn 2010/11 i'w chyllido drwy grant Llywodraeth y Cynulliad o £170.89m a chynnydd o 4% a ragwelwyd yn y Dreth Gyngor fyddai'n cynhyrchu £46.65m.

3. O ganlyniad byddai angen gostwng y gofyn cyllidebol o £222.09m a ragwelwyd y byddai ei angen drwy ddarganfod arbedion cyfwerth a £4.55m.

4. Bu cryn dipyn o newid yn y sefyllfa ar gyfer 2010/11 gyda'r cynnydd o 2.3% a ragwelwyd yn y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gostwng i 0.8% yn bennaf oherwydd cychwyn y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus.

5. Golyga hyn ein bod wedi derbyn £2.3m yn llai o gynnydd na ddisgwyliwyd pan yn diweddaru'r cynllun tair blynedd yr adeg yma y llynedd.

6. Yn ffodus iawn i ni, bu gostyngiad sylweddol (£3.7m) hefyd yn y symiau y bu'n rhaid i ni ei ddarparu ar gyfer chwyddiant gan gynnwys cynnydd llai na'r disgwyl yng nghyflogau gweithwyr yn 2009/10 a darpariaeth llai a wnaed ar gyfer 2010/11 oherwydd pwysau llai yn dod o dy ffigyrau chwyddiant.

7. Effaith hyn oll, gan gynnwys rhai materion bychan eraill oedd gostyngiad yn yr arbedion y bu'n rhaid eu darganfod o'r £4.55m a ragwelwyd yn wreiddiol i £3.2m.

8. Wrth daflunio ymlaen yn Chwefror 2008 felly fe ragwelwyd erbyn 2010/11 y byddai cyllideb o £217.6m ar gael i ni i gyflawni amcanion y Cyngor ac er mwyn cadw gofynion o fewn y ffigwr hwnnw y byddai'n rhaid i ni ddarganfod arbedion o £11.88m (gweler cymal 40 y cynllun gwreiddiol).

9. Nodwyd hefyd y byddem yn cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i amrediad o +1%/-1% o'r cyfartaledd Cymreig bob blwyddyn.

10. Erbyn hyn fe welir mai £217.2m fydd y gyllideb sydd ar gael i ni yn 2010/11 ac ein bod wedi gorfod darganfod arbedion cyfwerth a £12.2m dros y tair blynedd er mwyn cadw o fewn y ffigwr hwnnw.

11. Bu modd cadw'r cynnydd blynyddol yn y Dreth Gyngor i o gwmpas y cyfartaledd Cymreig yn unol a'r addewid gyda chynnydd 0.1% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2008/9; yn union fel y cyfartaledd yn 2009/10 a 0.2% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2010/11.

12. Yn sgil y cyfyngiad tebygol ar wariant yn y sector gyhoeddus am gyfnod estynedig, mae'r Cyngor bellach wedi cynnal adolygiad sylfaenol o sut y

mae'n bwriadu wynebu'r bygythiad yma ac wedi llunio rhestr arbedion cyfwerth a bron i £16m er mwyn bod yn barod ar gyfer y broblem.

13. Mae o hefyd wedi cwblhau'r gwaith o lunio Cynllun Rheoli Asedau'r fydd yn caniatáu i ni gymryd gogwydd hir dymor ar ei fuddsoddiadau cyfalaf gan sicrhau eu bod yn gyson a'i flaenoriaethau strategol a'r adnoddau sydd ar gael.

14. Mae'r cynllun eleni yn cynnwys nifer o welliannau fydd yn arwain at leihau sylfaen costau'r Cyngor drwy weithio mewn ffyrdd gwahanol. Erbyn y byddwn wedi defnyddio'r oll o'r £16m a nodir uchod, y gobaith yw y bydd nifer o rhain ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw arbedion pellach y bydd eu hangen er mwyn ceisio lleihau effaith y wasgfa ariannol ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i ein dinasyddion.

15. Bydd y datblygiadau yma yn caniatau i ni gynllunio'r Cynllun Tair Blynedd nesaf mewn ffordd bwyllog gan sefydlu beth yr hoffai'r Cyngor fod yn ei gyflawni a heb y broblem o orfod ymateb yn frysiog ac afresymegol i'r cyfyngiadau ariannol sydd am ein taro.